

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR MATHAFARN EITHAF

COFNODION o Gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa Goronwy Owen, Benllech ar Nos Lun, 26 Mawrth, 2018 am 7.00 o'r gloch.

PRESENNOL Mr R O Jones, (Cadeirydd), (Benllech A), Mr J Cotterell, (Benllech A), Ms G M Davies, (Benllech A), Mrs S Edwards, (Benllech B), Mr K F Griffiths, (Benllech A), Mr G Harker-Roberts, (Brynteg), Mrs C A Hulme, (Benllech B), Mr D Humphreys, (Benllech B), Mr G Owen, (Llanbedrgoch), Mr I Williams, (Benllech B).

186 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y canlynol :- Mr P Day, (Benllech B), Mrs B E Gall, (Benllech B), Mrs W Owen, (Llanbedrgoch).

187 DATGANIADAU O DDIDDORDEB.

Ni dderbyniwyd unrhyw Ddatganiadau o Ddiddordeb.

188 COFNODION.

Llofnododd y Cadeirydd Gofnodion Cyfarfodydd y Cyngor a gynhaliwyd ar y 26ain o Chwefror 2018.

LLWYBRAU FFYRDD A PHALMENTYDD.

189 CYNGOR SIR YNYS MON – YMATEB I FATERION PRIFFYRDD

Cyflwynwyd er gwybodaeth – gohebiaeth a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Ynys Mon a oedd yn ymateb i faterion priffyrdd a gyfeiriwyd ato gan y Cyngor Cymuned.

190 MATERION PRIFFYRDD AMRYWIOL.

Adroddwyd gan aelodau – amrywiol faterion oedd angen sylw.

GOHEBIAETH

191 UN LLAIS CYMRU – PWYLLGOR ARDAL YNYS MON.

Cyflwynwyd er gwybodaeth – cofnodion o'r Pwyllgor Ardal a gynhaliwyd ar yr 18 Ionawr 2018 yn Neuadd y Dref, Llangefni.

TALIADAU A CHYFRIFON

192 BILIAU.

Edwards Accounting	Paratoi gwybodaeth	£30-00
Eira Fon Parry	Gwasanaeth cyfieithu	£112-00
Lingo Cyf	Hurio offer cyfieithu	£72-00
G E Pritchard	Trafeilio 5/12/17 – 31/3/18	£382-80
Scottish Power	Goleuadau Nadolig	£26-08
Cyngor Sir Ynys Mon	Costau etholiad Mai 2017	£540-00
Richard Edwards	Torri gwellt 2017	£3999-40
G E Pritchard	Ad-daliad Lleol.Cymru	£180-00

(Eglurodd y Clerc fod y taliadau i Eira Fon Parry a Lingo Cyf yn ddwbl yr arferol gan fod dau gyfarfod wedi eu cynnal yn ystod y mis. Hefyd mai swm y taliad i Richard Edwards am 2017 oedd £3,999-40. Roedd taliad diweddar ar ol paratoi'r Rhaglen wedi ei wneud i Lleol.Cymru o £180 parthed hysbysebu Swydd y Clerc.)

193 CYFRIFON.

Cyflwynwyd – cyfrif yn dangos manylion y taliadau a wnaethpwyd gan y Clerc (yn cynnwys taliadau o dan gynllun dirprwyo cyfredol y Cyngor) yn Chwefror 2018.

PENDERFYNWYD – i nodi'r cyfrif a chytuno'r taliadau.

194 CYLLIDEB Y CYNGOR.

Cyflwynwyd – manylion o dderbyniadau a gwariant y Cyngor i gymharu a'i gyllideb am y cyfnod o 1 Ebrill 2017 i ddiwedd Chwefror 2018.

PENDERFYNWYD – i nodi a chytuno'r manylion.

MATERION CYFFREDINOL

195 CYMDEITHAS ADLONANT BENLLECH A'R CYLCH.

Eglurwyd fod y Cadeirydd a'r Clerc wedi mynychu cyfarfod o Bwyllgor Cymdeithas Adloniant Benllech a'r Cylch i drafod cais y Cyngor i sefydlu maes chwarae gyda gwyneb bob tywydd ar safle cyrtiau tennis y Gymdeithas Adloniant gyda grant ariannol hyd at £60,000 i'r Gymdeithas. Roedd deg o aelodau'r Gymdeithas yn cynnwys y Swyddogion yn bresennol ac fe ofynnwyd nifer o gwestiynau ynglyn a

bwriad y Cyngor Cymuned i sefydlu'r maes chwarae. Ar y cyfan roedd y cwestiynau yn rhai perthnasol ond roedd peth gwrthwynebiad gan un neu ddau. Penderfynwyd sefydlu Pwyllgor ar y cyd gyda tri aelod o'r Gymdeithas a'r un nifer o'r Cyngor Cymuned i drafod sut y buasai'r fenter yn gweithio'n ymarferol, mwy o fanylder ynglyn a chostau a phwy fuasai'n gofalu am y safle.

Roedd cynrychiolaeth o famau o'r pentref yn bresennol yn ogystal a gwahoddwyd un ohonynt i siarad gan y Cadeirydd. Mynegodd Kim White anfodlonrwydd gyda diffyg cyfleusterau a chyfleuon i blant a phobol ifanc gymeryd rhan mewn gweithgareddau yn y pentref.

Yn dilyn y cyfarfod gwnaeth y Clerc ymholiadau gyda chwmni yn y maes hwn i gael bras amcan o'r gost. Gan y buasai y gwyneb bob tywydd yn cael ei sefydlu ar faes hollol lefel, ni fuasai'r gost cymaint a phetai angen dechrau gyda rhan o laswellt neu wyneb anwastad. Awgrymwyd cost o gwmpas £33,000 a TAW. Roedd y cwmni hwn wedi gosod maes cyffelyb ar yr Ynys y llynedd a buasai'n bosib trefnu ymweliad petae angen.

Penderfynwyd ar y tri aelod canlynol i gynrychioli ar y Cyd Bwyllgor, Mrs Carol Hulme, Mr Kevin Griffiths a Mr Graham Harker-Roberts. Yn ogystal awgrymwyd fod Cynghorydd Ieuan Williams hefyd yn eistedd ar y Pwyllgor fel cynrychiolydd Cyngor Sir Ynys Mon. Fe awgrymwyd cael cynrychiolaeth o famau ar y Cyd Bwyllgor, fodd bynnag bydd rhaid cael cytundeb y Gymdeithas Adloniant i hyn.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu i'r Gymdeithas Adloniant gyda enwau'r cynrychiolwyr ac awgrymu presenoldeb y Cynghorydd Ieuan Williams. Fe ddisgwylir ymateb y Gymdeithas Adloniant a dyddiad y cyfarfod cyntaf.

196 CYNGOR SIR YNYS MON – ADNABOD LLECYNNAU AGORED

Derbyniwyd llythyr gan Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Mon yn ceisio gwybodaeth ynglyn a'r ddarpariaeth presennol o lecynau agored o fewn pentref Benllech i bwrpas cyfarfod a Pholisi ISA5 "Darparu Llecynau Agored Mewn Datblygiad Tai Newydd". Amgawyd Map o'r ardal yn dangos gwahanol "Llecynau" a gofynnwyd i'r Cyngor gadarnhau'r safleoedd presennol a rhoi gwybod am unrhyw "Llecynau" oedd wedi eu gadael allan.

PENDERFYNWYD – cadarnhau'r Llecynau dangosedig a tynnu sylw'r Uned at y Rhandiroedd ar hen safle cae chwarae Tynyngogl a Mynwent Gyhoeddus Llanfair M.E.

197 CLERC NEWYDD I'R CYNGOR CYMUNED.

Eglurwyd fod cwmni "Letterbox Recruitment" wedi gwneud ail gynnig i'r Cyngor Cymuned i ddefnyddio ei gwasanaeth mewn ymdrech i recriwtio Clerc newydd. Roedd y cwmni yn cynnig ffi o £2,000 a TAW am eu gwasanaeth ond nid oedd cyfnod o sicrwydd yn gynnwysiedig a buasai rhaid defnyddio ei gwasanaeth hwy yn unig.

PENDERFYNWYD – ar hyn o bryd peidio a derbyn cynnig "Letterbox Recruitment" ond parhau i ddefnyddio hysbysebion lleol a gwefan lleol.cymru.

198 "GENERAL DATA PROTECTION REGULATION"

Gyda chaniatad y Cadeirydd trafodwyd yr uchod a ddaeth i law gan Gymdeithas y Clercod yn rhy hwyr i'w gynnwys yn y Rhaglen. Eglurodd y Clerc fod yr uchod yn dod i fodolaeth ar y 25 o Fai 2018. Bydd y ddeddfwriaeth yma yn cymeryd lle'r "Data Protection Act 1998".

Eglurodd y Clerc fod darlleniad bras o'r rheolau newydd yn dangos fod angen gwaith sylweddol i ymgodymu a'r drefn newydd. Bydd rhaid penodi "Data Protection Officer" i'r Cyngor Cymuned, ni chaiff y Clerc na Swyddog Ariannol Cyfrifol ymgymryd a'r gwaith o dan rheolau'r ddeddf.

Roedd Cymdeithas y Clercod yn awgrymu defnyddio gwasanaeth Cwmni Celyn i weithio ar ran Cyngorau Cymuned a Thref gyda mabwysiadu'r "GDPR", mae eu costau yn £40 yr awr neu £300 y dydd.

PENDERFYNWYD – peidio gwneud dim ar hyn o bryd a disgwyl i weld os daw cyngor gan Un Llais Cymru.

CYNLLUNIO

199 CEISIADAU

PENDERFYNWYD – ar y ceisiadau cynllunio o flaen y Cyngor fel a ganlyn :-

1. Caniatau :

30C317C/TPO	Breeze Hill Hotel, Benllech.
-------------	------------------------------

2. Gwrthod :

30C755B/DE

Land at Min y Ffrwd, Brynteg -
gwrthodwyd gan ei bod yn
amhosib gwneud penderfyniad
heb weld cynlluniau terfynol.

Terfynwyd y Cyfarfod am 8-40 yr hwyr.